# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Mai 2013 i'w hateb ar 21 Mai 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **David Rees (Aberafan)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gofal iechyd yn y gymuned yng Nghymru? OAQ(4)1087(FM)

2. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cleifion sydd â chanser yng Nghymru? OAQ(4)1069(FM)

3. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynlluniau arfaethedig i werthu'r Post Brenhinol? OAQ(4)1074(FM)

4. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gronfa Technolegau Iechyd? OAQ(4)1085(FM)

5. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa gamau pellach y mae'r Prif Weinidog wedi eu cymryd yn rhinwedd ei gyfrifoldeb strategol dros bolisi ynni yn dilyn ei gyhoeddiad ar 1 Mai 2013? OAQ(4)1071(FM)**W**

**6. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch darganfod clefyd Coed Ynn mewn coed yng Nglan y Fferi, Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)1075(FM)

**7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnwys ei gyfarfod diwethaf gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1072(FM)

**8. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol sector twristiaeth Cymru? OAQ(4)1081(FM)

**9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1068(FM)

**10. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau? OAQ(4)1077(FM)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1084(FM)

**12. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â Bil Cymru, a gafodd ei gynnig yn Araith y Frenhines? OAQ(4)1076(FM)

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i gefnogi gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)1082(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefelau staffio nyrsys yng Nghymru? OAQ(4)1079(FM)**W**

**15. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa mor fodlon yw'r Prif Weinidog bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gwmnïau yng

Nghymru wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn atal hynny? OAQ(4)1073(FM)